



ARID (Cyflymu Datblygiad Seilwaith Ailbrosesu)

Gwerthuso Rhaglen Allanol: Adroddiad Cryno (Chwefror 2015)



Cefndir

Roedd ARID (Cyflymu Datblygiad Seilwaith Ailbrosesu) yn rhaglen gyfalaf £14 miliwn rhwng mis Hydref 2011 a mis Mehefin 2015, a gynlluniwyd i:

- Helpu Cymru i gyflawni ei tharged o ailgylchu 70 y cant o'r holl wastraff erbyn 2025, fel y nodwyd yn strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*.
- Mynd i'r afael â meysydd methiant y farchnad a nodwyd yng Nghynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad allanol o'r rhaglen a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2014 a mis Ionawr 2015 gan Databuild Ltd. Roedd y gwerthusiad yn ystyried rheolaeth, darpariaeth ac effaith y rhaglen mewn perthynas â'i hamcanion strategol a'r hyn y gallai ei gyflenwi.

Rhoddodd ARID gyllid cyfalaf i Fusnesau Bach a Chanolig yn ardal Gydgyfeirio Cymru ar gyfer:

- Gwasanaethau casgliadau ar wahân a safleoedd 'dod â gwastraff'
- Busnesau rheoli ac ailbrosesu gwastraff, a
- Gweithgynhyrchwyr sy'n defnyddio deunydd ailgylchu mewn prosesau cynhyrchu a phecynnu.

Amcanion strategol



“Mae'r arian a gawsom wedi cyflymu'r gwaith o ddatblygu ein cynllun ac mae wedi cael effaith anhygoel o gadarnhaol.”

Buddiolwr ARID

Aeth y rhaglen ARID i'r afael yn uniongyrchol â'r amcanion strategol a amlinellwyd yn *Rhaglen Weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop 2007-2013*, Blaenoriaeth 4: Creu Amgylchedd Busnes Deniadol: Thema 2: Mynd i'r Afael â Chyfleoedd Amgylcheddol a Risgiau i Dwf Economaidd Cynaliadwy, trwy hyrwyddo twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol y presennol yn ogystal â'r dyfodol.

Fel yr amlinellwyd yn y *Fframwaith Strategol ar gyfer Effeithlonrwydd Deunyddiau*, roedd y rhaglen yn cynnig cymorth i Fusnesau Bach a Chanolig yn ardal Gydgyfeirio Cymru i reoli adnoddau deunyddiau'n fwy effeithlon ac er mwyn:

- Gwella cystadleuaeth
- Lleihau costau i fusnesau
- Lleihau'r defnydd ar ddeunyddiau (crai)
- Lleihau gwastraff a faint ohono a anfonir i safleoedd tirlenwi, a
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Nod y rhaglen oedd ceisio sefydlu a chryfhau'r seilwaith rheoli adnoddau deunyddiau yn yr ardal Gydgyfeirio, trwy gynnig cymorth:

- I gasglu ac ailbroseu gwastraff, ac
- I weithgynhyrchwyr ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu mewn prosesau cynhyrchu neu becynnu.

Yn benodol, datblygwyd ARID i:

- Leihau faint o wastraff masnachol a diwydiannol a anfonir i safleoedd tirlenwi trwy ddatblygu capasiti i ailbroseu gwastraff y gellir ei ailgylchu yng Nghymru
- Hyrwyddo prosiectau sy'n ychwanegu gwerth at ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a sicrhau bod deunyddiau mewnbyn o ansawdd da ar gael yn rhwydd i'w defnyddio gan y sector gweithgynhyrchu, ac
- Ymyrryd ar draws pob elfen o'r ddolen adnoddau.

Darparu

“Roedd y grant wedi ein galluogi i wneud pethau ddwy flynedd a hanner yn gynt, gan y byddai wedi cymryd yr amser hwnnw i ni gynilo'r arian.”

Buddiolwr ARID

Rhoddodd ARID gyllid ar gyfer:

- **Gwasanaethau casglu a safleoedd 'dod â gwastraff'** er mwyn cynyddu mynediad at wasanaethau ailgylchu i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru, gwella cyfraddau ailgylchu a sicrhau cyflenwad cyson o ddeunyddiau o ansawdd da ar gyfer y sector ailbrosesu.
- **Datblygu seilwaith ailbrosesu** i ychwanegu gwerth at ddeunyddiau a ailgylchwyd a sicrhau bod deunyddiau mewnbwn o ansawdd da ar gael i'w defnyddio gan y sector gweithgynhyrchu.
- **Busnesau rheoli gwastraff** sy'n ceisio ychwanegu offer a seilwaith at gyfleusterau presennol, i wella cyfraddau ailgylchu ac ansawdd yr allbynnau a ailgylchwyd sydd ar gael i'w hailbrosesu ymlaen, ac
- Offer i fusnesau **gweithgynhyrchu** bach a chanolig er mwyn iddynt newid i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu mewn prosesau cynhyrchu a phecynnu, neu gynyddu canran y deunyddiau wedi'u hailgylchu a ddefnyddir mewn prosesau cynhyrchu a phecynnu, gan arwain at fwy o alw yn y farchnad am ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a'u hailbrosesu.

Cynorthwywyd ymgeiswyr am grantiau trwy'r broses o ddatblygu a darparu eu prosiectau gan Reolwyr Cyfrif Busnes WRAP Cymru. Lluniwyd contract gydag ymgeiswyr llwyddiannus i ddarparu allbynnau ar gyfer dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a chreu swyddi.

Roedd prosiectau gwerth isel (£50,000 neu lai) yn adrodd yn erbyn targedau dros gyfnod o dair blynedd, ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr am grantiau mwy ymrwymo i gyflawni targedau dros bum mlynedd. Darparodd ymgeiswyr dystiolaeth o allbynnau a gyflawnwyd yn rhan o'r broses monitro grantiau.

Cyflawniadau

Mae'r gwerthusiad o'r rhaglen wedi adrodd bod ARID wedi cynyddu'r seilwaith ailbrosesu yng Nghymru yn sylweddol, gan alluogi mwy o wastraff masnachol a diwydiannol i gael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi a gwella cyfraddau ailgylchu. Mae'n ychwanegu gwerth at ddeunyddiau a ailgylchwyd trwy gynyddu ei ansawdd, ac wedi gynyddu'r galw am ddeunyddiau a ailgylchwyd o ansawdd uchel ac y raddau y maent ar gael.

Effeithiau meintiol

Canlyniadau a ragwelir dros gyfnod tair i bum mlynedd:



arbed, aildefnyddio
neu ailgylchu

398,847
o dunelli


o wastraff



creu

178 o swyddi
newydd

ymhlith y busnesau a
gynorthwywyd



osgoi

79.49 KT

o allyriadau carbon

“Roedd y cymorth i roi popeth at ei gilydd yn dda iawn; roeddent yn cynnig eu hunain i helpu gydag unrhyw broblemau. Roedd y broses [ymgeisio] wedi’i thrin yn eithaf da ac roedd y cyswllt lleol yn dda iawn, gan sicrhau ei bod ar gael bob amser.”

Buddiolwr ARID

Mae’r tabl isod yn dangos yr allbynnau a ragwelir ar gyfer ARID yn ystod cyfnod monitro’r grant ac yn amlygu ei allu i sicrhau buddiannau sylweddol ar gyfer yr ardal Gydgyfeirio. Mae’r rhaglen ar y trywydd iawn i ragori ar ei thri tharged allweddol – bydd yn cyflawni’r rhain yn ystod cyfnod tair blynedd o ran grantiau sy’n cefnogi cyfleusterau casglu a chynnwys a ailgylchwyd, a phum mlynedd o ran grantiau sy’n cefnogi gweithgarwch ailbrosesu ar raddfa fawr ac ar raddfa fach.

	Gwastraff wedi’i Arbed/ Ailddefnyddio/ Ailgylchu	Swyddi wedi’u Creu	Allyriadau Carbon wedi’u Hosgoi (Kt)
Targed	326,220	106	65.51
Rhagolwg 3 blynedd – 5 mlynedd	398,847	178	79.49
% o’r Targed a Gyflawnwyd	122%	168%	121%

Mae’r ffigurau uchod yn cynrychioli amcangyfrifon o effeithiau’r 54 o grantiau a ddyfarnwyd, adeg cynnal yr ymchwil (Hydref 2014). Fodd bynnag, erbyn diwedd y rhaglen ym Mehefin 2015, amcangyfrifir y bydd 70 o brosiectau wedi cael eu cynorthwyo ac felly, bydd holl effeithiau’r gronfa’n debygol o gynyddu.

Yn ogystal â monitro tunelledd a’r effaith ar swyddi yn sgil grantiau ARID, roedd saith buddiolwr a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad yn gallu meintioli gwerthiannau ychwanegol o ganlyniad i gymorth ARID, gan adrodd am gynnydd £2.1 filiwn mewn gwerthiannau blynyddol rhyngddynt. Mae hyn yn awgrymu gwerthiannau ychwanegol o oddeutu £3 miliwn i £4 miliwn y flwyddyn ar draws y sefydliadau a gynorthwyir trwy ARID.

“Roedd staff WRAP Cymru yn gymwynasgar iawn ac yn hawdd mynd atynt, ac roedd wedi’i reoli’n dda.”

Buddiolwr ARID



Effeithiau ansoddol

Aeth ARID i'r afael yn uniongyrchol â'r amcanion strategol a amlinellwyd yn Rhaglen Weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop 2007-2013, Blaenoriaeth 4: Creu Amgylchedd Busnes Deniadol: Thema 2: Mynd i'r Afael â Chyfleoedd Amgylcheddol a Risgiau i Dwf Economaidd Cynaliadwy, trwy hyrwyddo twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol y presennol yn ogystal â'r dyfodol.

Helpodd fusnesau i wneud y canlynol:

- **Ailystyried sut maen nhw'n gweithio**
Mae'n ymddangos bod y cyllid a'r cymorth wedi symud cyfran arwyddocaol o'r busnesau i gyfeiriad newydd, gan weithredu fel catalydd neu luosogwr.
- **Gwella rheolaeth fusnes**
Mae gan nifer o fuddiolwyr ymgynghorydd arbenigol wedi'i "ymsefydlu" i bob pwrpas yn y tîm rheoli erbyn hyn, sy'n gwella rheolaeth fusnes.

- **Cael gafael ar gyllid ychwanegol**

Roedd dyfarnu grant ARID yn awgrymu bod gan WRAP Cymru hyder yn y busnesau, a'u helpodd i gael gafael ar fuddsoddiad ychwanegol gan fanciau a ffynonellau eraill o gyllid.

- **Cynyddu hyder**

Roedd y cyllid a'r cymorth wedi rhoi mwy o hyder i rai buddiolwyr llai o faint yn eu gallu eu hunain i lwyddo a thyfu eu busnesau. Gwelsant ddyfarnu grant fel arwydd o ffydd, a'u helpodd i anelu'n uwch a gweithio ar ddatblygu ac ehangu eu busnesau ymhellach.

- **Cael gafael ar ddeunyddiau newydd**

Dyfarnwyd nifer sylweddol o'r grantiau i ganiatáu i fuddiolwyr gael gafael ar ddeunyddiau newydd penodol, trwy ddechrau gwasanaethau casglu newydd neu brosesu gwastraff, yr oeddent yn ei anfon i safleoedd tirlenwi yn flaenorol.

- **Cyfarfod cysylltiadau busnes newydd**

Roedd y rhaglen hefyd wedi darparu cyfleoedd rhwydweithio, gan alluogi buddiolwyr i ddatblygu cysylltiadau gwaith â buddiolwyr eraill ARID.

Astudiaethau achos

1 South Wales Wood Recycling



Cynorthwyodd cymorth ariannol ARID y cwmni teuluol hwn o Ben-y-bont ar Ogwr i brynu offer er mwyn galluogi'r busnes i ddelio â swmp gwaith uwch. O ganlyniad, mae'r busnes wedi tyfu 30%.

Heb gymorth ARID, ni fyddem wedi gallu prynu'r offer ychwanegol a byddai ein gallu i weithio wedi aros yr un peth.

Kevin Burke, Rheolwr Safle

2 Scott Waste Management



Diolch i gymorth ariannol ARID, prynodd y busnes casgliadau ailgylchu hwn dri cherbyd newydd, wagen fforch godi a byrnwr maint melin. O ganlyniad, mae refeniw'r cwmni wedi codi 100%, mae'r cwmni'n cyflogi pum gweithiwr ychwanegol ac mae ei gleientiaid yn cynnwys John Lewis a B&Q.

Llwyddodd y cwmni i gyflawni cymaint mewn blwyddyn diolch i'r cymorth ariannol. Byddai wedi cymryd dwy neu dair blynedd i gyflawni'r un peth gan ddefnyddio ein llif arian ein hun. Mae WRAP Cymru wedi gweithredu fel catalydd cadarnhaol ac, eleni, rydym yn tyfu ar raddfa lawer cynt, ac mae ein nod o agor gorsaf drosglwyddo yn bosibilrwydd go iawn.

William Scott, Perchennog a Chyfarwyddwr

3 Williams a Williams Cyf



Cyfrannodd cymorth ariannol ARID at safle 'dympio' gwastraff gwahanedig a chasgliadau i fusnesau ym maes twristiaeth, a gynorthwyodd Williams a Williams Cyf i dorri costau a chynyddu refeniw, yn ogystal â rhoi mynediad i sector twristiaeth Gogledd Cymru at gasgliadau ailgylchu o'r radd flaenaf.

Yn ogystal â'r cymorth a gawsom, mae'r drysau sydd wedi'u hagor o ganlyniad i weithio gyda WRAP Cymru a'r cysylltiadau rydym ni wedi'u gwneud wedi bod yn amhrisiadwy.

Meurig Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr

Y Dyfodol

Dywedd rhai buddiolwyr y byddent yn croesawu mwy o gyllid cyfalaf, fodd bynnag, mae adborth yn dangos bod angen parhaus hefyd am gymorth busnes, yn enwedig ymhlith busnesau ARID llai sy'n dibynnu'n bennaf ar y perchennog ar gyfer cynllunio a gwneud prif benderfyniadau.



Roedd llawer o'r busnesau'n gwerthfawrogi arbenigedd technegol WRAP Cymru a help gyda rhwydweithio, yn enwedig i ddod o hyd i farchnadoedd ar gyfer deunyddiau ailgylchu ac archwilio cyfleoedd busnes newydd.

Mae argymhellion allweddol ar gyfer datblygu'r rhaglen yn y dyfodol, a awgrymwyd gan yr ymchwilyr yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda buddiolwyr, yn cynnwys:

- Darparu cymorth reffeniw (ymgyngoriaeth) ochr yn ochr ag unrhyw raglen gyfalaf, gan ei bod yn amlwg iawn bod hyn yn gallu arwain at newid a gwella canlyniadau'n gyflymach pan gaiff ei gysylltu.
- Cymorth cyfalaf a reffeniw ychwanegol yn canolbwyntio ar ffrydiau gwastraff blaenoriaeth.
- Cyfeirlyfr ar-lein o fusnesau yng Nghymru ar draws y sector rheoli adnoddau, ar gyfer casglwyr, ailbroeswyr, neu ddefnyddwyr deunyddiau wedi'u hailgylchu. Byddai hyn yn werthfawr i hwyluso cysylltiadau rhwng y rhai hynny sy'n meddu ar adnoddau penodol a'r rhai hynny sy'n gallu eu defnyddio.
- Cynlluniau benthyciadau ar gyfraddau manteisiol, i gynnig cymorth datblygu cynnyrch neu

broes i weithgynhyrchwyr, neu fel modd o alluogi cwmnïau a allai fforddio pryniant cyfalaf eu hunain ymhen ychydig flynyddoedd i wneud hynny'n gynt.

- Hyfforddiant newid ymddygiad sy'n gallu dylanwadu ar fuddsoddi, cynyddu ailgylchu, gwella ansawdd, a chynyddu nifer y gweithgynhyrchwyr sy'n defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y newidiadau i'r rheoliadau gwahanu ffynhonnell presennol.
- Hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer defnydd gwell o TG i olrhain gwastraff, yn debyg i hwnnw a ddefnyddir bellach yn y diwydiant logisteg a danfon, lle y gall cwsmeriaid a defnyddwyr ddilyn hynt llwyth yn rhwydd ar-lein. Mae llawer o weithredwyr bach yn dal i ddibynnu ar Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff ysgrifenedig a dogfennau eraill sy'n llafurus ac yn cymryd amser.

Ynglŷn â WRAP Cymru

Mae WRAP Cymru yn rhan o WRAP. Cenhadaeth WRAP yw cyflymu'r newid i economi gynaliadwy sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon trwy ailddyfeisio'r ffordd yr ydym yn cynllunio, cynhyrchu a gwerthu cynhyrchion, ailstyried sut yr ydym yn defnyddio cynhyrchion, ac ailddiffinio'r hyn sy'n bosibl trwy ailgylchu ac aildddefnyddio. Mae'n gweithio, yn unigryw ac o fwriad, yn y bwlch rhwng llywodraethau, busnesau, cymunedau, meddylwyr arloesol ac unigolion – gan ffurfio partneriaethau a datblygu mentrau blaengar i helpu'r Deyrnas Unedig i ddefnyddio adnoddau'n fwy cynaliadwy.

Er bod camau wedi'u cymryd i sicrhau ei chywirdeb, ni all WRAP Cymru dderbyn cyfrifoldeb na chael ei ddal yn atebol i unrhyw unigolyn am golled neu ddifrod sy'n codi oherwydd neu mewn cysylltiad â'r ffaith bod y wybodaeth hon yn anghywir, yn anghyflawn neu'n gamarweiniol. Mae'r deunydd hwn yn destun hawlfraint. Ceir ei atgynhyrchu'n rhad ac am ddim cyn belled ag y bo'r deunydd yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid nodi ffynhonnell y deunydd hwn a chydabod y statws hawlfraint. Ni cheir defnyddio'r deunydd hwn i gefnogi nac awgrymu bod WRAP Cymru yn cefnogi gwasanaeth neu gynnyrch masnachol. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at ein Telerau ac Amodau ar ein gwefan – www.wrap.org.uk/content/terms-conditions.

www.wrapcymru.org.uk

029 2010 0100

 **Dilynwch ni: @WRAP_Cymru**

Mae WRAP yn Elusen gofrestredig rhif 1159512 ac mae wedi'i gofrestru fel Cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr rhif 4125764.

WAL0001/02/15